# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

## CYNLLUN DIRPRWYO

## I

## BWYLLGORAU A SWYDDOGION
**(Cylch Gorchwyl)**
**Chwefror 2022**

| Statws y ddogfen | |
|---|---|
| Dyddiad mabwysiadu | 11 Chwefror 2022 |
| Mabwysiadwyd gan | Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| Swyddog arweiniol | Catherine Mealing-Jones |
| Dyddiad adolygu nesaf | 2025 |

[I'w adolygu: Mawrth 2025]

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad....................2
**Rhan A: Dirprwyo pwerau i unrhyw Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau ....................3**
A1 Darpariaethau cyffredinol ....................3
A2 Cylchoedd gorchwyl ar gyfer yr Awdurdod, ei Bwyllgorau, ei Is-bwyllgorau a'i Grwpiau ....................4
A.2.1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ....................4
A.2.2 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio ....................6
A.2.3 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg....................8
A2.4 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad....................9
A2.5 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau ....................11
A2.6 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cadeiryddion ....................13
A2.7 Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ....................15
**Rhan B: Dirprwyo pwerau i'r Prif Weithredwr ....................18**
B1 Y Prif Weithredwr....................18
**Rhan C: Dirprwyo pwerau i'r Cyfarwyddwyr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 ....................21**
C1 Trefniadau cyffredinol ar gyfer dirprwyo pwerau i'r Cyfarwyddwyr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 ....................21
C2 Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle....................23
C3 Y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol....................24
C4 Dirprwyo pwerau i'r Swyddog Adran 151 ....................26
C5 Y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd ....................27

# CYNLLUN DIRPRWYO

## Cyflwyniad

1. Caiff dibenion a dyletswydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog eu pennu mewn statud, yn bennaf yn Rhan III Deddf yr Amgylchedd 1995 fel y'i diwygiwyd gan Ran 5 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

   Roedd Deddf yr Amgylchedd 1995 yn adolygu'r ddeddfwriaeth wreiddiol ac yn nodi dau ddiben statudol ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr:

   1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol;
   2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Parciau Cenedlaethol.

   Pan fydd Parciau Cenedlaethol yn cyflawni'r dibenion hyn, mae dyletswydd arnynt hefyd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parciau Cenedlaethol.

   Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu pŵer i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried ei fod yn briodol er mwyn cyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau.

2. Bwriad y Cynllun Dirprwyo hwn yw caniatáu i'r aelodau lunio polisi a gwneud penderfyniadau'n sydyn ac yn effeithiol, a chaniatáu i swyddogion wneud penderfyniadau rheoli a phenderfyniadau gweithredol, mewn fframwaith o atebolrwydd i'r Llywodraeth ac i bobl leol.

3. Mae tair rhan i'r Cynllun:

**Rhan A** Mae Rhan A yn egluro'r pwerau a gedwir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r pwerau y mae'n eu dirprwyo i'w Bwyllgorau a'i Is-bwyllgorau.

**Rhan B** Mae Rhan B yn dirprwyo pwerau i'r Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol), a elwir o hyn ymlaen yn Brif Weithredwr, gyflawni busnes a gwneud penderfyniadau mewn fframwaith polisi a materion ariannol, sy'n cynnwys cyfraith statud, cylchlythyrau a chanllawiau'r Llywodraeth ynghylch polisi, pwerau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, y Fframwaith Datblygu Lleol, y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Gweithredol neu ddogfennau cyfatebol.

**Rhan C** Mae Rhan C yn dirprwyo pwerau'r Prif Weithredwr ymhellach i'r Cyfarwyddwyr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 a'r holl swyddogion eraill a awdurdodir yn briodol yn ysgrifenedig.

4. Yn gyffredinol, dylai'r Cynllun gael ei weithredu er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle ymdrinnir â busnes fwy nag unwaith.

5. Caiff pwerau i wario neu gynhyrchu incwm at ddibenion a gymeradwywyd, yn unol â pholisi a'r gyllideb, eu dirprwyo'n sylweddol ond cânt eu rheoli'n llym gan Femorandwm Grant

Ariannol y Senedd, Rheoliadau Ariannol a Chyfarwyddiadau Ariannol. Caiff swyddogion bwerau sylweddol ond rhaid iddynt sicrhau bod yr aelodau'n cael gwybodaeth briodol yn gyson a bod adroddiadau cywir yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn.

6. Dylid cymryd bod unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun hwn at ddarpariaethau statudol yn cynnwys unrhyw ailddeddfiadau neu addasiadau statudol dilynol o'r darpariaethau hynny.

7. Yn ogystal â hwyluso penderfyniadau gwybodus ac effeithiol, bwriedir i'r fframwaith hwn hybu dealltwriaeth a chyfathrebu rhwng yr aelodau a'r swyddogion hefyd**.**

## Rhan A: Dirprwyo pwerau i unrhyw Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau

### A1 Darpariaethau cyffredinol

A1.1 Caiff y Cynllun Dirprwyo hwn ei lunio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a phob pŵer galluogi arall. Caiff unrhyw Bwyllgor y dirprwyir pwerau iddo is-ddirprwyo'r pwerau hynny i un o Is-bwyllgorau neu swyddogion yr Awdurdod. At hynny, caiff unrhyw Is-bwyllgor is-ddirprwyo pwerau i swyddog. Caiff unrhyw swyddog y dirprwyir pwerau iddo awdurdodi swyddogion eraill, yn ysgrifenedig, i arfer y pwerau hynny ar ei ran/ei rhan.

A1.2 Caiff pob Pwyllgor ei awdurdodi i benodi aelodau i Is-bwyllgorau a gytunwyd gan yr Awdurdod ac i ddirprwyo ei bwerau a'i ddyletswyddau i'r Is-bwyllgorau hynny.

A1.3 Bydd pwerau a ddirprwyir i unrhyw un o Bwyllgorau, Is-bwyllgorau neu swyddogion yr Awdurdod yn cael eu harfer bob amser yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod, ac eithrio i'r graddau y gallent fod wedi'u hatal yn unol â'u telerau. Ar y llaw arall, mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn gweithredu er mwyn awdurdodi Pwyllgorau, Is-bwyllgorau a swyddogion i gymryd camau gweithredu y caniateir iddynt eu cymryd gan Reoliadau Ariannol yr Awdurdod. Bydd penderfyniadau a wneir dan bwerau a ddirprwywyd yn cael eu gwneud yn unol ag unrhyw un o bolisïau neu strategaethau perthnasol yr Awdurdod, gan gynnwys ei gyllideb a gymeradwywyd.

A1.4 Ni fydd unrhyw gyfeiriad cyffredinol at bŵer, dyletswydd, swyddogaeth neu fater arall yng nghyswllt un Pwyllgor yn cynnwys unrhyw fater y mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn ei gyfeirio'n benodol at Bwyllgor arall.

A1.5 Yn absenoldeb y Prif Weithredwr, caiff unrhyw Brif Swyddog ei awdurdodi i gyflawni unrhyw swyddogaethau ac arfer unrhyw bwerau y mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn eu rhoi i'r Prif Weithredwr.

A1.6 Caiff yr Awdurdod, neu Bwyllgor neu Is-bwyllgor, roi pa gyfarwyddyd bynnag y mae'n ei ystyried yn briodol ynghylch cael adroddiadau rheolaidd am y camau gweithredu a gymerwyd dan bwerau a ddirprwywyd.

## A2 Cylchoedd gorchwyl ar gyfer yr Awdurdod, ei Bwyllgorau, ei Is-bwyllgorau a'i Grwpiau

### A.2.1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

A2.1 Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei sefydlu dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i weinyddu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Cafodd Parciau Cenedlaethol eu dynodi dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a chafodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei ddynodi yn 1957. Mae dibenion y Parc Cenedlaethol, a adolygwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995, wedi'u pennu uchod ym Mharagraff 1 y Cyflwyniad.

A2.2 Cylch gorchwyl Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

1 Gwneud ac adolygu Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol.
2 Pennu, cymeradwyo ac adolygu strwythur yr Awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau (y Cylch Gorchwyl a'r Cynllun Dirprwyo), sy'n cynnwys y drefn ar gyfer dirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau ac is-bwyllgorau, cyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau, a'r drefn ar gyfer dirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weithredwr a swyddogion.
3 Pennu a chymeradwyo gweithdrefnau a phrotocolau er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni swyddogaethau Pwyllgorau'n effeithlon.
4 Cymeradwyo polisïau a chynlluniau strategol a datblygu yng nghyswllt materion anweithredol.
5 Penodi'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Diogelu Data yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
6 Cael cofnodion y Pwyllgorau sydd heb bwerau a ddirprwywyd, er mwyn eu cymeradwyo.
7 Bod yn gyfrifol am adnoddau ariannol ac asedau'r Awdurdod.
8 Cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol ynghylch cyfalaf a refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dilyn.
9 Pennu gofyniad o ran y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dilyn a threfnu bod pob awdurdod cyfansoddol yn cael ei hysbysu ynghylch ardollau blynyddol.
10 Penderfynu ynghylch ceisiadau i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy am grantiau sy'n werth dros £30,001, a gaiff eu cyfeirio at yr Awdurdod gan Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
11 Cymeradwyo a chael diweddariadau ynghylch Dangosyddion y Cod Materion Ariannol.
12 Cymeradwyo lefel y cronfeydd wrth gefn a'r modd y cânt eu defnyddio.
13 Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
14 Cymeradwyo'r Datganiadau o Gyfrifon ac awdurdodi'r Cadeirydd a'r Swyddog Adran 151 i'w llofnodi.
15 Mabwysiadu cod o ran yr ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yr Awdurdod.
16 Ystyried adroddiadau a gyfeirir at yr Awdurdod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005, a phennu camau gweithredu priodol.
17 Penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol.
18 Gwneud is-ddeddfau.

19 Ymdrin â materion eraill y mae'r Awdurdod o bryd i'w gilydd yn penderfynu eu cadw yn ôl er bod y mater wedi'i ddirprwyo i Bwyllgor neu swyddog.

20 Penderfynu ynghylch materion y mae'r gyfraith yn pennu bod angen i'r Awdurdod benderfynu yn eu cylch.

21 Cael cyflwyniad blynyddol gan Gadeiryddion y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sydd i'w gyflwyno mewn cyfarfod llawn o'r Awdurdod cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn.

22 Penodi deiliad swydd cymwys yn aelod ("aelod Bannau Brycheiniog") o bob un o'r canlynol:
Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth;
Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin;
Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain;
gan gynnwys pob un o Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig perthnasol.

23 Pennu cyfraniad yr Awdurdod i gyllideb pob Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer cynllunio strategol.

24 Gwneud cais i Weinidogion Cymru, sy'n gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau er mwyn diwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor, sy'n sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y mae'r Awdurdod yn aelod ohono.

Yr Awdurdod sy'n bennaf gyfrifol am swyddogaethau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae wedi dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau a swyddogion er mwyn caniatáu i'r aelodau lunio polisi a gwneud penderfyniadau'n sydyn ac yn effeithiol, a chaniatáu i swyddogion wneud penderfyniadau rheoli a phenderfyniadau gweithredol, mewn fframwaith o atebolrwydd i'r Llywodraeth ac i bobl leol. Bydd yr Awdurdod yn arfer ei holl bwerau ac yn cyflawni ei holl ddyletswyddau yn unol â'r gyfraith a'r Cynllun Dirprwyo hwn.

## Aelodaeth

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 18 |
| Sy'n cynnwys: | |
| Aelodau a benodwyd gan Awdurdodau Lleol | 12 |
| Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru | 6 |

| | |
|---|---|
| Cworwm | 6 a ddylai gynnwys o leiaf un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac un aelod a benodwyd gan Awdurdod Lleol. |
| Hyd y penodiad | Yn amrywio'n ôl y corff sy'n penodi. |

Mae'r Awdurdod yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio, ynghyd ag aelodau pwyllgorau, ym mhob Cyfarfod Blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dilyn. Caiff

Cadeirydd ac Is-gadeirydd pob Pwyllgor arall eu hethol yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor perthnasol ar ôl Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod.

**Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd yr agenda a'r adroddiadau ar gael yn unol ag Adran 100B(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

### A.2.2 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio

Caiff cyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o ran swyddogaethau rheoli datblygu eu cyflawni gan y Pwyllgor Cynllunio, hynny yw yr holl bwerau a'r holl ddyletswyddau yng nghyswllt pob mater rheoli datblygu sy'n codi o bob deddfwriaeth gyfredol a gweithredol ym maes cynllunio, ac eithrio os yw'r pwerau hynny wedi'u dirprwyo i swyddogion.

Mae hynny'n cynnwys:

- Penderfynu ynghylch materion rheoli datblygu (nad ydynt wedi'u dirprwyo fel arall), gan gynnwys ceisiadau cynllunio, ac unrhyw benderfyniadau angenrheidiol ynghylch sut y dylent gael eu trin neu'u trafod yn unol â gofynion y gyfraith.
- Cynnal ymweliadau â safleoedd os oes raid.
- Penderfynu ynghylch pob cais yn ymwneud â hawliau tramwy, nad ydynt wedi'u dirprwyo fel arall i'r Cyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd.
- Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Awdurdod a phenderfynu yn ei gylch.
- Cael adroddiadau gan y Fforwm Mynediad Lleol a chael cofnodion y Fforwm.
- Ystyried argymhellion y Fforwm Mynediad Lleol a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.
- Penodi aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn unol ag Atodiad A.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw'r unig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae hefyd yn ymwneud (gydag unrhyw Awdurdod Cynllunio Lleol yr effeithir arno) â'r gwaith o benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio sydd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn aml yn ymgynghorai ynghylch ceisiadau a allai effeithio ar y Parc Cenedlaethol.

Aelodaeth

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 12 |
| Sy'n cynnwys: | |
| Aelodau a benodwyd gan Awdurdodau Lleol | 8 |
| Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru | 4 |

| | |
|---|---|
| Cworwm | 6 a ddylai gynnwys o leiaf un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Leol ac un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru |

Mae'r Awdurdod yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn y Cyfarfod Blynyddol ar gyfer y flwyddyn sy'n dilyn. Ni all Cadeirydd neu Is-gadeirydd yr Awdurdod fod yn Gadeirydd nac yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Mae hyfforddiant yn ofyniad gorfodol i bob aelod cyn y bydd yn dod yn aelod gweithredol o'r Pwyllgor Cynllunio.

**Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd yr agenda a'r adroddiadau ar gael yn unol ag Adran 100B(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

### A.2.3 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg

A2.3.1 Gweithredu ar ran yr Awdurdod fel a ganlyn:

1. Mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, cychwyn adolygiadau mewn meysydd ffocws sy'n cynnwys (ymhlith eraill) y meysydd hynny lle mae angen i'r Awdurdod asesu risg neu geisio sicrwydd, lleihau costau a/neu wella gwerth am arian ac arfer gorau, ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod ynghylch yr adolygiadau hynny.
2. Cynghori'r Awdurdod ynghylch ei agenda a'i bolisïau llywodraethu corfforaethol, a gweithredu a rheoli polisïau a gytunwyd gan yr Awdurdod yn y maes hwn, sy'n cynnwys goruchwylio ei strategaeth rheoli risg a'i bolisi atal twyll a llygredd, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac ystyried yr Adroddiad Blynyddol.
3. Trefnu bod materion yr Awdurdod, gan gynnwys ei fesurau rheoli ariannol a'i gyfrifon, yn cael eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol.
4. Argymell newidiadau i'r Awdurdod, lle bo'n briodol, yng nghyswllt adroddiadau archwilio mewnol a'r cynllun archwilio mewnol blynyddol.
5. Cael pob cynllun ac adroddiad archwilio allanol a mewnol, a monitro'r gwaith o weithredu argymhellion archwilio.
6. Monitro gweithdrefn gwyno'r Awdurdod ac, fel y bo'n briodol, penderfynu ynghylch unrhyw honiadau o gamweinyddu ac ynghylch unrhyw rwymedïau priodol.
7. Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, adolygu'r adroddiadau archwilio allanol a'r cynllun archwilio allanol blynyddol, ar ran yr Awdurdod, ac argymell newidiadau i'r Awdurdod lle bo'n briodol.
8. Adolygu strategaethau a pholisïau'r Awdurdod o ran rheoli trysorlys.
9. Adolygu'r adroddiad blynyddol ynghylch perfformiad, drafftio ymateb iddo, argymell unrhyw newidiadau ac adrodd ynghylch y canfyddiadau i'r Awdurdod.
10. Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol bob blwyddyn cyn ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

**DS. Ni fydd modd i Gadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, na Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, na Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wasanaethu ar y Pwyllgor hwn.**

#### Aelodaeth

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 6 |
| Sy'n cynnwys: | |
| Aelodau a benodwyd gan Awdurdodau Lleol | 4 |
| Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru | 2 |

Cworwm 2 a ddylai gynnwys o leiaf un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Leol ac un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Darperir hyfforddiant priodol i'r aelodau, a disgwylir y byddant wedi cael hyfforddiant o'r fath. Mae hyfforddiant yn ofyniad gorfodol i bob aelod cyn y bydd yn dod yn aelod gweithredol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd yr agenda a'r adroddiadau ar gael yn unol ag Adran 100B(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

---

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter yn ôl y gofyn.

## A2.4 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

1. Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, gweithredu ar ran yr Awdurdod o ran gweinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol, ac eithrio fel y darperir ym mharagraff 1.2 isod (lle caiff y penderfyniad terfynol ynghylch y gyllideb flynyddol ei wneud gan yr Awdurdod), sy'n cynnwys gweinyddu:

   1.1. balansau arian parod, cyfalaf neu gronfeydd wrth gefn a'r trefniadau ar gyfer benthyca ac ar gyfer buddsoddi unrhyw warged.
   1.2. rheoli a monitro rhagolygon ariannol a chyllidebau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch dyrannu adnoddau'n flynyddol.
   1.3. goruchwylio'r modd y caiff Deddfau Budd-dâl Ymddeol Llywodraeth Leol a rheoliadau cysylltiedig eu rhoi ar waith.

2. Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch polisïau, canllawiau a strategaethau'r Awdurdod yng nghyswllt unrhyw faterion, pwerau neu ddyletswyddau sy'n ymwneud â sicrhau, rheoli a gwaredu'r adnoddau, gan gynnwys tir, eiddo ac asedau eraill, sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni dibenion statudol yr Awdurdod; ac adolygu a gwneud argymhellion ynghylch polisïau a chyfeiriad strategol a gytunwyd, sy'n cynnwys monitro defnydd effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau dan sylw.

3. Dyma nodau'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad:

   3.1. Adolygu materion ariannol, yn unol â Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a fersiynau dilynol ohonynt.
   3.2. Adolygu Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod yn gyson ac argymell newidiadau iddynt.
   3.3. Adolygu strategaeth a pherfformiad ariannol, gan gynnwys y Gyllideb Tymor Canolig, yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a gytunwyd gan yr Awdurdod. Adolygu'r gyllideb flynyddol ac unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol, sydd i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod llawn.
   3.4. Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, adolygu'r eitemau canlynol ar ran yr Awdurdod ac argymell newidiadau i'r Awdurdod, lle bo'n briodol:
      3.4.1. y Polisi Rheoli Trysorlys, gan gynnwys trefniadau ar gyfer benthyca ac ar gyfer buddsoddi unrhyw warged.
      3.4.2. y Polisi Pensiynau.

3.4.3. y strategaeth, y rheolau a'r polisi caffael fel y cânt eu nodi yn y Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau.

3.4.4. Y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo.

4. Gweithredu ar ran yr Awdurdod fel a ganlyn:

4.1. adolygu perfformiad yr Awdurdod o safbwynt mynd ar drywydd ei bolisïau a'i amcanion (yn enwedig y rhai sydd yn y Cynllun Corfforaethol) ac o safbwynt darparu gwasanaethau.

4.2. bod yn Bwyllgor arweiniol o safbwynt gweithredu a monitro proses yr Awdurdod ar gyfer asesu perfformiad.

4.3. arwain ar gynllunio gwelliannau a dysgu o brosiectau mawr a rhaglenni sy'n parhau.

DS. Ni fydd modd i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wasanaethu ar y Pwyllgor hwn.

## Aelodaeth

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 6 |
| Sy'n cynnwys: | |
| Aelodau a benodwyd gan Awdurdodau Lleol | 4 |
| Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru | 2 |

Cworwm 2 a ddylai gynnwys o leiaf un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Leol ac un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

**Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd yr agenda a'r adroddiadau ar gael yn unol ag Adran 100B(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Darperir hyfforddiant priodol i'r aelodau, a disgwylir y byddant wedi cael hyfforddiant o'r fath. Mae hyfforddiant yn ofyniad gorfodol i bob aelod cyn y bydd yn dod yn aelod gweithredol o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal 3 i 4 gwaith y flwyddyn yn ôl y gofyn.

### A2.5 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau

Mae pwerau wedi'u dirprwyo er mwyn i'r Pwyllgor Safonau:

1. Hybu, monitro a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad gan yr aelodau a swyddogion.
2. Cynghori'r Awdurdod ynghylch mabwysiadu'r Cod Ymddygiad neu'i adolygu.
3. Cynorthwyo'r aelodau i lynu wrth y Cod Ymddygiad.
4. Monitro'r modd y caiff codau ymddygiad yr Awdurdod eu gweithredu.
5. Ystyried materion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a, lle bo'n briodol, penderfynu yn eu cylch.
6. Ystyried cwynion yn erbyn aelodau dan y Cod Ymddygiad a phenderfynu yn eu cylch.
7. Penderfynu ynghylch ceisiadau ysgrifenedig gan aelodau'r Awdurdod am ollyngiad i siarad neu i siarad a phleidleisio ynglŷn ag unrhyw fater a ddaw gerbron yr Awdurdod a/neu'i Bwyllgorau, y mae gan yr aelod sy'n gwneud y cais fuddiant ariannol datgeladwy ynddo, a phenderfynu ynghylch telerau unrhyw ollyngiad a ganiateir.
8. Gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch materion sy'n ymwneud ag ymddygiad yr aelodau, os yw'r argymhellion hynny'n codi ar ôl iddo ystyried materion y cyfeirir atynt yn y pedwar pwynt bwled cyntaf uchod.
9. Gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch Cod Ymddygiad yr Awdurdod i aelodau a pholisïau cysylltiedig, gan gynnwys (ymhlith eraill) y Protocol Aelodau a Swyddogion, er enghraifft ynghylch dylanwad ac effaith y cyfnod cyn etholiad ar fusnes yr Awdurdod.
10. Sefydlu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ynghylch cwynion a gyfeirir ato i'w hystyried, gan gynnwys (ymhlith eraill) bolisi'r Awdurdod ynghylch chwythu'r chwiban.
11. Rhoi cyngor am hyfforddi aelodau'r Awdurdod ynghylch materion sy'n ymwneud â chodau ymddygiad yr Awdurdod.
12. Paratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

#### Aelodaeth

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 6 |
| Sy'n cynnwys: | |
| Aelodau'r Parc Cenedlaethol | 3 |
| Aelodau annibynnol | 3 |
| Cworwm | 3 a ddylai gynnwys y Cadeirydd, a rhaid bod o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau annibynnol |

Hyd y penodiad: Amrywiol

Os yw'n briodol, bydd Swyddog Monitro'r Awdurdod yn darparu cymorth i'r Pwyllgor.

**Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus fel rheol, yn ad hoc yn ôl y gofyn, yn unol ag Adran 100E(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Yn achos cwynion yn erbyn aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, bydd y Pwyllgor yn cwrdd yn breifat ac yn gyhoeddus fel y nodir gan ganllawiau cenedlaethol, statud ac arfer gorau. Bydd yr**

**agenda a'r adroddiadau ar gael yn unol ag Adran 100E(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn.

Noder:

i. Bydd y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd bob blwyddyn o blith ei aelodau annibynnol.

ii. Ni fydd unrhyw aelod sydd wedi chwarae rhan weithredol yn flaenorol, wrth ystyried achos penodol, yn ymwneud â gwrandawiad sy'n ystyried yr achos hwnnw.

iii. Nid oes modd i ddeiliaid y swyddi canlynol fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau, oherwydd mae'n debygol na fyddai modd iddynt ymwneud â chyfran fawr o'r gwrandawiadau oherwydd gwrthdaro o ran buddiannau:

- Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod;
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## A2.6 Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cadeiryddion

Bydd y Pwyllgor Cadeiryddion:

1. Yn adolygu ac yn gweithredu arfer gorau ym maes llywodraethu ac yn datblygu'r aelodau er mwyn gwella penderfyniadau, perfformiad pwyllgorau a chynlluniau busnes gan roi sylw dyladwy i dryloywder, atebolrwydd a hygyrchedd.
2. Yn ystyried adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd yr Awdurdod a'i bwyllgorau ac yn monitro'r gwaith o weithredu unrhyw argymhellion sy'n codi o'r adolygiadau hynny.
3. Yn adolygu, o leiaf yn flynyddol, berfformiad y Prif Weithredwr ar sail targedau a meini prawf rheoli a sefydlwyd drwy gydgytundeb ac yn unol â Chynllun Rheoli Perfformiad Corfforaethol yr Awdurdod.
4. Yn pennu cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn unol â Chynllun Rheoli Perfformiad Corfforaethol yr Awdurdod.
5. Yn penderfynu ynghylch unrhyw gwynion a gyfeirir ato gan y Prif Weithredwr ac yn ystyried unrhyw gŵyn yn erbyn y Prif Weithredwr, ac yn penderfynu ynghylch y camau unioni sy'n briodol (gan gynnwys iawndal ariannol) er mwyn datrys anghydfodau neu gwynion cyflogaeth; ac, yn absenoldeb unrhyw weithdrefnau o'r fath, yn sicrhau bod y gweithdrefnau a fabwysiedir ganddo'n weithdrefnau teg rhwng partïon yr anghydfod neu'r gŵyn gyflogaeth a'u bod yn gyson ag unrhyw ofynion cyfreithiol.
6. Yn gwrando ar unrhyw fater sy'n ymwneud â disgyblu, trafod gallu neu ddileu swydd y Prif Weithredwr, unrhyw fater sy'n ymwneud â chwyn cyflogaeth ac unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag anghydfod ynglŷn ag amodau gwasanaeth, ac yn penderfynu ynghylch y materion hynny.

### Aelodaeth

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 6 |

Sy'n cynnwys:

- Cadeirydd
- Is-gadeirydd
- 4 aelod arall a ddylai gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod yn aelodau o'r Pwyllgor hwn yn awtomatig. Bydd swyddogion yn cael eu penodi'n gynghorwyr i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn, a byddant yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Monitro a swyddogion eraill yn ôl y gofyn (e.e. cynghorydd cyfreithiol, y Rheolwr Cyllid, y Swyddog Adran 151, y Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac aelod uwch o staff y tîm Adnoddau Dynol).

| | |
|---|---|
| Cworwm | 2 a ddylai gynnwys o leiaf un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Leol ac un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru |

**Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd yr agenda a'r adroddiadau ar gael yn unol ag Adran 100B(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal 3 i 4 gwaith y flwyddyn yn ôl y gofyn.

### A2.7 Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Bydd Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy:

1. Yn penderfynu ynghylch ceisiadau dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, sy'n werth rhwng £5,001 a £30,000.
2. Yn ystyried ceisiadau am grantiau gwerth dros £30,001 ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ynghylch penderfyniad terfynol.
3. Yn cefnogi prosiectau partneriaeth sy'n datblygu ac yn profi dulliau o sicrhau ffordd o fyw sy'n fwy cynaliadwy, mewn ardal o gefn gwlad sy'n llawn amrywiaeth a harddwch naturiol lle mae'r nodweddion lleol o ran diwylliant, bywyd gwyllt, tirwedd, defnydd tir a chymuned yn cael eu gwarchod a'u gwella.
4. Yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu ac yn profi ffyrdd o fyw sy'n gynaliadwy yng nghefn gwlad, drwy ddyfarnu grantiau gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd at yr uchafswm a benderfynir yn flynyddol gan holl aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
5. Wrth gyflawni'r uchod, yn cael cymorth a chyngor gan banel ar wahân, sef y Panel Cynghori ar Grantiau, a fydd yn cynnwys hyd at 15 o arbenigwyr lleol (sy'n cynnwys tri chynrychiolydd cymunedol a etholwyd) fel yr amlinellir isod. Cylch gorchwyl y panel hwnnw yw:

    5.1. Cael ceisiadau am gyllid gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, eu hystyried a phenderfynu yn eu cylch, yn unol â'r Cynllun Dirprwyo.
    5.2. Cael adroddiadau gan swyddogion am gynnydd prosiectau a ariannwyd, a chael diweddariadau ariannol ym mhob cyfarfod.

6. Yn penodi aelodau i'r Panel Cynghori ar Grantiau fel a ganlyn:

    6.1. Cymeradwyo trefniadau recriwtio.
    6.2. Ystyried ymgeiswyr addas a gafodd eu rhoi ar restr fer gan y Prif Weithredwr, swyddog(ion) y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
    6.3. Penderfynu pa ymgeiswyr i'w penodi.

7. Yn monitro ac yn adolygu cyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a chynnydd prosiectau.
8. Yn sicrhau bod yr adroddiad blynyddol ynghylch sut y caiff cyllid y Gronfa ei ddyrannu yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo ac, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, yn anfon yr adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Gweithdrefn apelio

9. Os caiff cais ei wrthod, gall yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad. Rhaid bod yr apêl yn seiliedig ar:
    9.1. Honiad bod gweithdrefn yn anghywir; neu
    9.2. Sefyllfa lle mae'r ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad terfynol.

10. Rhaid i unrhyw apêl gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig cyn pen saith diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd yr ymgeisydd wybod am y penderfyniad, a rhaid iddi gael ei hanfon at Swyddog

Monitro'r Awdurdod. Mae gan yr Awdurdod 28 diwrnod gwaith i benderfynu ynghylch yr apêl (diwrnod gwaith yw diwrnod nad yw'n cynnwys y penwythnos a gwyliau cyhoeddus).

11. Bydd apêl oherwydd gweithdrefn anghywir yn cael ei hadolygu gan y Swyddog Monitro. Os bydd y Swyddog Monitro o'r farn bod diffyg o bwys yn y weithdrefn, bydd gan yr ymgeisydd hawl i ofyn am i'r cais gael ei ailystyried gan y Panel Apêl.
12. Bydd apêl oherwydd bod yr ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad terfynol yn dod gerbron Panel Apêl.
13. Bydd y Panel Apêl yn cynnwys pum aelod:
    13.1. tri aelod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, a
    13.2. dau aelod cynghorol (neu aelodau cynghorol wrth gefn a benodwyd yn briodol) nad oedd unrhyw un ohonynt yn ymwneud â'r broses o ystyried y cais gwreiddiol.
14. Beth bynnag fydd y rheswm dros yr apêl, bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud drwy bleidlais gan aelodau'r Awdurdod sy'n bresennol, gyda chymorth aelodau cynghorol y Panel Apêl.

## Aelodaeth Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 6 |
| Sy'n cynnwys: | |
| Aelodau a benodwyd gan Awdurdodau Lleol | 4 |
| Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru | 2 |

| | |
|---|---|
| Cworwm: | 2 a ddylai gynnwys o leiaf un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Leol ac un aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru |
| Hyd y penodiad: | Amrywiol |

Bydd swyddogion yn cael eu penodi'n gynghorwyr i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn, a byddant yn cynnwys y Prif Weithredwr.

Caiff cyfarfodydd ar y cyd o Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a'r Panel Cynghori ar Grantiau eu cynnal bum gwaith y flwyddyn neu yn ôl y gofyn.

## Cylch gorchwyl y Panel Cynghori ar Grantiau

15. Darparu arbenigedd yn eu maes a gwybodaeth leol i Bwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
16. Galluogi penderfyniadau yn unol ag arfer gorau wrth ddyfarnu grantiau i gyflawni dibenion yr Awdurdod, sef: 'cefnogi prosiectau partneriaeth sy'n datblygu ac yn profi dulliau o sicrhau ffordd o fyw sy'n fwy cynaliadwy, mewn ardal o gefn gwlad sy'n llawn amrywiaeth a harddwch naturiol lle mae'r nodweddion lleol o ran diwylliant, bywyd gwyllt, tirwedd, defnydd tir a chymuned yn cael eu gwarchod a'u gwella.'

17. Disgwylir i aelodau'r Panel Cynghori ar Grantiau gydnabod y Cod Ymddygiad Enghreifftiol i Aelodau'r Parc Cenedlaethol, a bydd unrhyw aelodau a benodwyd gan Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'u Cod Ymarfer perthnasol nhw wrth gyflawni ei rôl fel aelod o'r Panel.

### Aelodaeth y Panel Cynghori ar Grantiau

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr aelodau | 15 |
| Sy'n cynnwys: | |
| Aelodau Cynghorau Tref/Cymuned | 3 |
| Y chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu | 1 |
| Aelodau arbenigol | 11 |
| Hyd y penodiad: | Amrywiol |

Caiff Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli aneddiadau yng ngorllewin, canol a dwyrain y Parc eu gwahodd i gyflwyno cais i enwebu un cynghorydd i fod yn aelod o'r Panel Cynghori ar Grantiau. Ar gyfer pob un o'r tair ardal, caiff y cynghorydd ei ddewis trwy dynnu enwau o het.

Un person ifanc o'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu, a gaiff ei ddewis gan Bennaeth y Chweched (gallai dau berson ifanc rannu'r rôl hon a gallai unigolyn gwahanol ddod i bob cyfarfod).

Hyd at 11 o aelodau arbenigol sydd ag ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ynghyd â gwybodaeth a phrofiad sy'n ymwneud ag o leiaf un o'r meysydd canlynol: · mynediad ac amrywiaeth · amaethyddiaeth · archeoleg · busnes · adeiladu/pensaernïaeth · yr amgylchedd · hamdden/twristiaeth · ynni adnewyddadwy · datblygu cynaliadwy · gwirfoddoli · treftadaeth ddiwylliannol Cymru.

**Rhan B: Dirprwyo pwerau i'r Prif Weithredwr**

**B1 Y Prif Weithredwr**

Caiff y Prif Weithredwr (Swyddog Parc Cenedlaethol) ei awdurdodi gan hynny i gyflawni'r canlynol:

1. Ymgymryd â'r gwaith o reoli o ddydd i ddydd yr Awdurdod, ei swyddogion, ei safleoedd a'i wasanaethau er mwyn gweithredu'r strategaethau a'r polisïau a nodir yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac unrhyw Gynllun Corfforaethol neu Gynllun Busnes, Cynllun Cyfathrebu a Chynllun Cydraddoldeb Strategol a fabwysiadwyd ac unrhyw strategaethau a pholisïau eraill a bennir o dro i dro.
2. Pennu polisïau a chynlluniau gweithredol a'u rhoi ar waith.
3. Mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod, pennu polisïau a chanllawiau ynghylch personél yr Awdurdod, ac adolygu'r modd y cânt eu rhoi ar waith yng nghyswllt y staff a materion sy'n ymwneud â chysylltiadau diwydiannol, ond yr Awdurdod fydd yn gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â phenodi'r Prif Weithredwr.
4. Pennu a chymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac unrhyw Gynllun Corfforaethol, Cynllun Busnes, Cynllun Cyfathrebu a Chynllun Cydraddoldeb Strategol a fabwysiadwyd (gan gynnwys unrhyw strategaethau a pholisïau eraill a bennir o dro i dro) ac at y diben hwn mynd i gostau'n unol â'r gyllideb a gymeradwywyd a'r terfynau y darparwyd ar eu cyfer mewn Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol.
5. Cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu unrhyw un o benderfyniadau'r Awdurdod neu'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, gan gynnwys unrhyw amrywiad i'r penderfyniad hwnnw os yw'r amrywiad yn ddibwys ac nad yw'n esgor ar unrhyw oblygiadau i'r Awdurdod.
6. Tracio arfer gorau ym maes llywodraethu ac argymell i'r Awdurdod ei fod yn cael ei weithredu fel y bo'n briodol.
7. Cynnal adolygiadau o ddogfennau rheoleiddiol yr Awdurdod a/neu ystyried newidiadau arfaethedig iddynt.
8. Adolygu tryloywder ac atebolrwydd pwyllgorau o ran rhanddeiliaid allanol, sy'n cynnwys defnyddio cyfleusterau gweddarlledu a chyfryngau cymdeithasol.
9. Ystyried adroddiadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a chyflwyno argymhellion i'r Awdurdod.
10. Ystyried cyfleoedd ariannu yng nghyswllt gwelliannau technolegol a gwelliannau eraill i drefniadau llywodraethu.
11. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru neu archwilwyr mewnol yr Awdurdod yn ystod unrhyw adolygiadau llywodraethu yng nghyswllt yr Awdurdod.
12. Cefnogi ethos yr Awdurdod o ran sefydlu a datblygu aelodau er mwyn hybu trefniadau llywodraethu da, a hyrwyddo hynny i'r holl aelodau.
13. Pennu a chyflawni unrhyw dasg arall o ran llywodraethu corfforaethol neu ddatblygu aelodau, a allai gael ei dirprwyo gan yr Awdurdod.
14. Pennu, cyflawni ac addasu cylchoedd gorchwyl gweithgorau a fforymau, a'r cyfnod y byddant yn bodoli.
15. Gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod unrhyw wariant yn cael ei fonitro'n rheolaidd ar sail cyllidebau a gymeradwywyd a bod yr Awdurdod neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor priodol yn cael gwybod am unrhyw amrywiadau o bwys o ran alldro.

16. Yn achos unrhyw fater brys neu argyfwng cymryd unrhyw gamau angenrheidiol ynghylch unrhyw fater, sy'n cynnwys cychwyn camau cyfreithiol, neu benderfynu nad oes unrhyw gamau gweithredu'n angenrheidiol ar ran yr Awdurdod ac unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Awdurdod yng nghyswllt unrhyw faterion sydd o fewn pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod. Ym mhob achos o'r fath, bydd adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor priodol.
17. Awdurdodi swyddogion ac asiantiaid yr Awdurdod i arfer pwerau mynediad statudol er mwyn archwilio ac arolygu tir, adeiladau neu safleoedd, ac o bosibl rhoi unrhyw dystiolaeth angenrheidiol neu warant awdurdod a allai fod yn briodol er mwyn cyflawni dyletswyddau neu arfer pwerau'r swyddogion neu'r Awdurdod.
18. Oni ddarperir yn benodol fel arall, penderfynu y gall unrhyw rai o'r pwerau a ddirprwywyd iddo ef/iddi hi dan y Cynllun Dirprwyo hwn gael eu harfer gan unrhyw un o swyddogion yr Awdurdod a awdurdodir yn ysgrifenedig ganddo/ganddi.
19. Mae gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y grym i benderfynu pryd nad yw penderfyniad ynghylch eiddo yn benderfyniad o bwys ynghylch eiddo. Os nad yw'n benderfyniad o bwys ynghylch eiddo, o fewn darpariaethau'r Rheoliadau Ariannol ynghylch taliadau/derbyniadau cyfalaf a/neu rent/incwm blynyddol, caiff y Prif Weithredwr ei awdurdodi i:
    - 19.1. Gymeradwyo caffael a gwaredu tir a chymryd/amrywio prydlesi, trwyddedau, trefniadau neilltuo a hawddfreintiau unrhyw dir neu hawddfreintiau dros unrhyw dir (gan gynnwys adeiladau);
    - 19.2. Cymeradwyo rhoi neu amrywio prydlesi, trwyddedau a threfniadau neilltuo unrhyw dir neu drefniadau neilltuo dros unrhyw dir;
    - 19.3. Cymeradwyo ceisiadau i lacio cyfamodau cyfyngu.
20. Caiff y Prif Weithredwr ei awdurdodi i:
    - 20.1. Nodi unrhyw dir nad oes ei angen mwyach.
    - 20.2. Cymeradwyo gwaredu tir a rhoi neu amrywio prydlesi, trwyddedau a threfniadau neilltuo unrhyw dir neu drefniadau neilltuo dros unrhyw dir.
    - 20.3. Cymeradwyo cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu gan neu ar ran yr Awdurdod.
21. Caiff y Prif Weithredwr ei awdurdodi i weithredu yng nghyswllt y canlynol:
    - 21.1. Ymestyn absenoldeb tosturiol ar gyfer unrhyw un o gyflogeion yr Awdurdod.
    - 21.2. Ymestyn tâl salwch ar gyfer unrhyw un o gyflogeion yr Awdurdod.
    - 21.3. Cymeradwyo absenoldeb arbennig ar gyfer unrhyw un o gyflogeion yr Awdurdod.
    - 21.4. Gwneud unrhyw newidiadau i'r sefydliad parhaol.
    - 21.5. Cyflawni pob agwedd ar y gwaith o wneud neu gadarnhau penodiadau, neu ddiswyddo neu ddisgyblu, a phenderfynu ynghylch pob mater sy'n ymwneud â chyflogi swyddogion a staff dros dro a pharhaol ac ynghylch yr amodau a'r telerau y cânt eu cyflogi ar eu sail fel y nodir mewn amodau gwasanaeth cenedlaethol a lleol a allai fod mewn grym o dro i dro. Yng nghyswllt y Prif Swyddogion, pennu'r meini prawf, llunio rhestr fer a chynnal/dirprwyo cyfweliadau, a gwneud argymhelliad ynghylch penodiad i gyfarfod llawn o'r Awdurdod neu ba bwyllgor neu is-bwyllgor bynnag a allai gael ei sefydlu at y diben hwnnw.
    - 21.6. Cymeradwyo ymddeoliad gwirfoddol/trefniant dileu swydd yn wirfoddol ar gyfer unrhyw un o gyflogeion yr Awdurdod.
    - 21.7. Cymeradwyo ceisiadau gan Gronfa Bensiwn Powys i ryddhau buddion pensiwn sy'n gysylltiedig â chyn-aelodau o staff.
    - 21.8. Cymeradwyo taliadau *ex gratia*.

21.9. Ymgymryd â gwaith ymgynghori ar y cyd â chynrychiolwyr cyflogeion ynghylch disgyblaeth, diogelwch eiddo, diogelwch personol a lles, mân anomaleddau, anghydfodau a'r weithdrefn cwynion cyflogaeth, goruchwyliaeth, cyfathrebu ac effeithlonrwydd er mwyn cynnal a gwella perthynas waith dda â chyflogeion.
21.10. Cymeradwyo trefniadau i gyflogeion yr Awdurdod ymgymryd â dyletswyddau etholiadau.
21.11. Ar ran yr Awdurdod, awdurdodi unrhyw ddatganiadau ariannol sy'n ofynnol gan y gyfraith neu gan awdurdodau cymwys.
21.12. Penderfynu ynghylch ceisiadau am grantiau gwerth hyd at £5000 gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
21.13. Cymeradwyo amrywiadau i brosesau ar gyfer dyfynbrisiau contractio, fel yr eglurir yn Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog yr Awdurdod ynghylch contractau.
21.14. Sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer yswiriant.
21.15. Gweithredu newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus rhwng y terfynau ar wahân a gytunwyd ar gyfer benthyca ac unrhyw rwymedigaethau hirdymor eraill yn unol â'r angen i sicrhau gwerth am arian neu ffactorau perthnasol eraill.
21.16. Benthyca gan Swyddfa Rheoli Dyledion y DU (ar ran Trysorlys EM) neu farchnadoedd arian ar sail y cyfraddau mwyaf manteisiol.

22. Bydd y Prif Weithredwr yn llofnodi ar ran yr Awdurdod, lle bo'n briodol, yr hysbysiadau, y gorchmynion, y gweithredoedd neu'r dogfennau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu materion ac argymhellion pwyllgorau a gyflwynir i'r Awdurdod ac a gymeradwyir ar ran yr Awdurdod, neu er mwyn gweithredu unrhyw fater y mae un o Bwyllgorau neu Is-bwyllgorau'r Awdurdod yn ymdrin ag ef dan bwerau a ddirprwywyd iddo, neu os yw unrhyw ddogfen o'r fath yn gam angenrheidiol mewn achos cyfreithiol neu seneddol ar ran yr Awdurdod neu y mae a wnelo'r Awdurdod ag ef, ar yr amod y caniateir i unrhyw hysbysiadau, gorchmynion, gweithredoedd neu ddogfennau o'r fath gael eu llofnodi yn enw'r Prif Weithredwr ac ar ei ran/ei rhan gan unrhyw berson a ddynodwyd ganddo/ganddi at y diben hwnnw neu unrhyw rai o'r dibenion hynny.
23. Awdurdodir y Prif Weithredwr i benderfynu ynghylch ymateb yr Awdurdod yn unol â pholisïau'r Awdurdod i unrhyw gynnig gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu lywodraeth leol, sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys cynigion ynghylch pwerau, dyletswyddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdod.
24. Mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod, cytuno ynghylch presenoldeb yr aelodau mewn cynadleddau.

Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, a'r Cadeirydd ynghylch rhychwant y pwerau a ddirprwyir yn y Cynllun Dirprwyo, ac ynghylch y modd y caiff y pwerau a ddirprwyir eu dehongli, yn derfynol.

## Rhan C: Dirprwyo pwerau i'r Cyfarwyddwyr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151

### C1 Trefniadau cyffredinol ar gyfer dirprwyo pwerau i'r Cyfarwyddwyr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151

1. Awdurdodir y Cyfarwyddwyr a'r Swyddog Monitro i weithredu ar ran y Prif Weithredwr ynghylch unrhyw faterion a ddirprwyir drwy hyn, yn amodol ar y darpariaethau canlynol a fydd yn drech na phopeth arall:

    1.1. Y polisïau cyffredinol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu gan y Pwyllgor priodol dan bwerau a ddirprwywyd.
    1.2. Y Rheolau Sefydlog.
    1.3. Y Rheoliadau Ariannol.
    1.4. Cynllun Dirprwyo'r Pwyllgor Cynllunio.

2. Caiff y Cyfarwyddwyr eu hawdurdodi i weithredu o safbwynt penderfynu ynghylch trefniadau rheoli'r adnoddau dynol, ariannol (incwm a gwariant) a materol sydd ar gael i'w Cyfarwyddiaeth, at y dibenion a ddiffinnir ym mholisïau, cynlluniau a chyllideb yr Awdurdod a gymeradwywyd, ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Cynllun Dirprwyo.
3. Caiff y Cyfarwyddwyr eu hawdurdodi i weithredu (yn achos staff ar radd 13 neu is y Cyd-gyngor Cenedlaethol) o safbwynt penodi staff a gweithredu polisïau'r Awdurdod ar bersonél a rheoli yng nghyswllt pob aelod o staff y maent yn gyfrifol amdanynt, ac eithrio yng nghyswllt materion disgyblu a diswyddo ac fel y darperir yn adran C3 isod.
4. Caiff y Cyfarwyddwyr eu hawdurdodi i roi neu wrthod rhoi grantiau ariannol ym mhob amgylchiad lle mae gan yr Awdurdod bŵer i weithredu felly. Wrth arfer y pŵer hwn a ddirprwywyd, bydd y Cyfarwyddwr yn gweithredu'n unol â'r cyllidebau cyffredinol ac unrhyw gynllun a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu unrhyw un o'i Bwyllgorau neu'i Is-bwyllgorau a bydd yn cadw cofrestr o'r holl benderfyniadau a wnaed. Bydd unrhyw gofrestr o'r fath ar gael i unrhyw aelod o'r Awdurdod neu unrhyw aelod o'r cyhoedd ei harchwilio.
5. Caiff y Cyfarwyddwyr eu hawdurdodi i lofnodi ffurflenni hawlio grant a ffurflenni derbyn grant yng nghyswllt unrhyw brosiect neu fater sydd ei hun wedi'i awdurdod gan yr Awdurdod neu dan bwerau a ddirprwywyd.
6. Heb gael effaith andwyol ar y trefniadau dirprwyo hyn, disgwylir y bydd pob Cyfarwyddwr mewn achosion priodol yn trafod â'r Prif Weithredwr, ac mewn achosion priodol:
    6.1. Yn cadw mewn cysylltiad agos â Chadeirydd y Pwyllgor neu'r Grŵp priodol (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd); a/neu
    6.2. Yn sicrhau bod yr aelodau'n cael gwybod am gamau gweithredu allweddol a gymerwyd dan bwerau a ddirprwywyd; a/neu
    6.3. Yn sicrhau yr ymgynghorir â'r Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) neu y caiff y swyddog dan sylw ei hysbysu lle bo'n briodol.
7. Caiff y Cyfarwyddwyr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 eu hawdurdodi i wneud penderfyniadau ar ran yr Awdurdod ym mhob maes lle nhw'n unig sy'n gyfrifol am faterion rheoli a materion proffesiynol.
8. Gall y Prif Weithredwr ddiddymu'r trefniadau dirprwyo hyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw adeg.

9. Oni ddarperir yn benodol fel arall, gall unrhyw un o'r pwerau a ddirprwywyd i'r Cyfarwyddwyr dan y Cynllun Dirprwyo hwn gael ei arfer gan unrhyw un o swyddogion yr Awdurdod a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr dan sylw.

## C2 Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle

1. Caiff y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle benderfynu ynghylch y gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth baratoi'r dogfennau sy'n ofynnol gan y Cynllun Datblygu Lleol a gymeradwywyd.
2. Caiff y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle ei awdurdodi i weithredu fel a ganlyn:
   - 2.1. Ac eithrio yn achos y swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo yn benodol i'r Cyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd, caiff y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle ei awdurdodi i gyflawni'r holl swyddogaethau rheoli a gorfodi datblygu a roddir i Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Mwynau (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a sylweddau peryglus) gan gynnwys awdurdod i wneud mân amrywiadau i'r rhestrau dilysu cynllunio o ganlyniad i newidiadau mewn deddfwriaeth neu yng nghanllawiau'r llywodraeth, ac eithrio yng nghyswllt y canlynol:
   - 2.2. Cynigion a gyflwynir gan yr Awdurdod neu ar ran yr Awdurdod ar gyfer ei waith datblygu ei hun, neu waith datblygu ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod, os cafwyd gwrthwynebiad.
   - 2.3. Cynigion y mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle yn gwybod eu bod wedi'u cyflwyno gan un o aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod neu ar ran un o aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod (neu briod neu bartner un o aelodau neu gyflogeion yr Awdurdod), os cafwyd gwrthwynebiad.
   - 2.4. Sefyllfa lle mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle yn penderfynu y dylai'r mater gael ei ystyried gan yr Awdurdod oherwydd budd sylweddol i'r cyhoedd, gwrthdaro rhwng y polisïau cynllunio a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod a/neu ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.
   - 2.5. Dim ond os yw'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni y caniateir defnyddio'r pwerau a ddirprwywyd i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle:
     - 2.5.1. os bydd y penderfyniad yn unol â pholisi, a'r cynllun datblygu statudol perthnasol; neu'n unol â pholisi, ym marn y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle, nad yw unrhyw wyriad yn wyriad sylweddol a bod rhesymau cynllunio cadarn dros beidio â chydymffurfio â pholisi; ac
     - 2.5.2. nad oes unrhyw un o aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle yn gofyn, am ryw reswm cynllunio perthnasol a nodwyd yn ysgrifenedig, am i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r Protocol Cynllunio.

   Noder: Ni fydd y meini prawf a nodwyd yn 2.2 uchod yn berthnasol yng nghyswllt ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw neu yng nghyswllt hysbysiadau ymlaen llaw a gyflwynir yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd).

   - 2.6. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro y bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle yn cyflwyno Hysbysiadau Torri Amodau, Hysbysiadau Tramgwyddo Cynllunio a Hysbysiadau Adran 215.
   - 2.7. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro y bydd Hysbysiadau Gorfodi a Hysbysiadau Stop, gan gynnwys Hysbysiadau Stop Dros Dro, yn cael eu cyflwyno.
   - 2.8. Oni ddarperir yn benodol fel arall, penderfynu y gall unrhyw un o'r pwerau a ddirprwywyd i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle dan y Cynllun Dirprwyo hwn gael ei arfer gan unrhyw un o swyddogion yr Awdurdod a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle.

2.9. Penderfynu bod gwrych yn wrych 'nad yw'n bwysig' ar sail Meini Prawf Hysbysiadau Gwrychoedd.
2.10. Ar ran yr Awdurdod, mabwysiadu arfarniad diwygiedig o gymeriad ar gyfer unrhyw ardal gadwraeth ddynodedig yn y Parc Cenedlaethol.
2.11. Yn dilyn adolygiad o ardal gadwraeth, penderfynu ar ran yr Awdurdod na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i ffiniau'r ardal gadwraeth honno.
2.12. Pennu taliadau am gyngor proffesiynol yng nghyswllt y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.
2.13. Pennu taliadau am gyngor proffesiynol yng nghyswllt y Gwasanaethau Gwirio Cynllun.
2.14. Pennu ffïoedd a thaliadau am gyngor cynllunio cyn ymgeisio yn unol â'r egwyddorion a gytunwyd gan yr Awdurdod.
2.15. Pennu taliadau am ddarparu hanes cynllunio estynedig yn ystod chwiliadau'n ymwneud â phridiannau tir.
2.16. Awdurdodi caniatâd ar dir comin a thir mynediad dan is-ddeddfau'r Parc Cenedlaethol a gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedu gweithgareddau masnachol.
2.17. Ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro, penderfynu ynghylch ceisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon.
2.18. Cymeradwyo asesiadau priodol dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac asesiadau priodol sy'n deillio o Ran 1 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a chydymffurfio â nhw.
2.19. Awdurdodi gwneud Gorchmynion Cadw Coed os ymddengys fod bygythiad i goed pwysig, a chadarnhau Gorchmynion Cadw Coed os na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau.
2.20. Awdurdodi amrywio neu ddirymu Gorchmynion Cadw Coed sy'n bodoli ond sydd wedi dyddio, ac awdurdodi cyflwyno Gorchmynion newydd yn eu lle.
2.21. Penderfynu ynghylch ceisiadau am waith ar goed sy'n destun Gorchmynion Cadw Coed.
2.22. Penderfynu ynghylch hysbysiadau am waith ar goed mewn ardaloedd cadwraeth.
2.23. Awdurdodi penodi ymgynghorwyr a chontractwyr coed.
2.24. Awdurdodi gwaith ar wrychoedd pwysig dan y Rheoliadau Gwrychoedd.
2.25. Awdurdodi cyflwyno Hysbysiadau Cadw Gwrych.
2.26. Awdurdodi gwneud Gorchmynion Calchbalmant.
2.27. Awdurdodi cyflwyno Gorchmynion Calchbalmant brys.
2.28. Awdurdodi cyflwyno Gorchmynion Diogelu Adeilad.
2.29. Awdurdodi cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio Adeilad Rhestredig.
2.30. Awdurdodi cyflwyno Hysbysiad Gwaith Brys er mwyn gwarchod adeiladau rhestredig heb eu meddiannu.
2.31. Penderfynu nad yw'r meini prawf wedi'u bodloni neu nad oes angen hysbysiad dan ddarpariaethau sy'n ymwneud â Hysbysiadau Gwrychoedd.
2.32. Mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro ac yn unol â Rheoliadau Ariannol, ymrwymo i gytundebau rheoli gyda pherchnogion a meddianwyr tir yn unol ag Adran 39 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

## C3 Y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

1. Awdurdodir y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i:

1.1. Roi pŵer i gyflwyno hysbysiadau statudol er mwyn cadarnhau buddiant cyfreithiol unrhyw berson mewn tir.

1.2. Cael barn Cwnsler neu farn gyfreithiol broffesiynol arall, a briffio Cwnsler neu unrhyw berson cymwys arall i ymddangos ar ran yr Awdurdod.
1.3. Derbyn y weithred o gyflwyno unrhyw achos cyfreithiol, neu gychwyn, amddiffyn neu setlo unrhyw achos cyfreithiol neu gymryd rhan mewn unrhyw achos cyfreithiol neu dynnu'n ôl o unrhyw achos cyfreithiol yn enw'r Awdurdod neu un o swyddogion unigol yr Awdurdod yn y Gyfraith Gyffredin neu dan unrhyw ddeddfiad, offeryn statudol, gorchymyn neu is-ddeddf sy'n rhoi swyddogaethau i'r Awdurdod neu sy'n ymwneud â swyddogaethau a gyflawnir ganddo, a chyflwyno apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir mewn achos o'r fath. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r awdurdod hwn yn ymestyn i gymryd pob cam gweithdrefnol, sy'n cynnwys cyflwyno rhybuddion, statudol neu fel arall, gwrthrybuddion a Rhybuddion i Ymadael.
1.4. Cyflwyno erlyniadau mewn unrhyw lys troseddol, os bernir bod hynny'n amlwg yn fanteisiol o safbwynt hyrwyddo neu warchod dibenion a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol neu'n fanteisiol i fuddiannau'r Awdurdod, sy'n cynnwys unrhyw achos o weithredu'n groes i is-ddeddfau'r Parc Cenedlaethol, neu droseddau sy'n mynd yn groes i unrhyw ddeddfiad.
1.5. Awdurdodi swyddogion yr Awdurdod i erlyn neu amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achos cyfreithiol yn rhinwedd darpariaethau Adran 223 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac ymddangos ar ran yr Awdurdod mewn unrhyw ymchwiliad neu dribiwnlys neu gerbron unrhyw gorff arall sy'n gyfrifol am faterion sy'n effeithio ar yr Awdurdod.
1.6. Awdurdodi erlyniadau oherwydd achosion o rwystro hawliau tramwy dan Adran 137 Deddf Priffyrdd 1980.
1.7. Pennu taliadau cyfreithiol yng nghyswllt Cytundebau Adran 106.
1.8. Awdurdodi unrhyw gyfreithiwr cymwys a gyflogir neu a benodir gan yr Awdurdod i arfer unrhyw un o'r pwerau a nodir yn 1.1 i 1.6 gan gynnwys 1.1 ac 1.6.
1.9. Gwneud mân newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol neu er mwyn dileu unrhyw anghysondeb neu gywiro unrhyw amwysedd.

2. Yng nghyswllt y drefn Safonau, caiff y Swyddog Monitro ac unrhyw Ddirprwy Swyddog Monitro a benodir yn briodol eu hawdurdodi drwy hyn i:
   2.1. Gael cwyn a chydnabod cael cwyn dan y Cod Ymddygiad i Aelodau.
   2.2. Hysbysu'r aelod(au) dan sylw bod cwyn wedi dod i law a'i/a'u hysbysu ynghylch y mater y cwynwyd amdano.
   2.3. Adnabod yr aelod(au) dan sylw a nodi natur y gŵyn.
   2.4. Gofyn am eglurhad gan y sawl sy'n cyflwyno'r gŵyn a gofyn am unrhyw wybodaeth gefndir bellach yn ôl yr angen, heb ddechrau cynnal unrhyw ymchwiliad sylweddol.
   2.5. Gwahodd yr aelod(au) dan sylw i wneud datganiad am y gŵyn.
   2.6. Cau'r gŵyn oherwydd nad yw'r mater y cwynwyd amdano'n teilyngu ymchwiliad ffurfiol.
   2.7. Ystyried a, lle bo'n briodol, penderfynu a ddylai cwyn gael ei chyfeirio'n uniongyrchol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
3. Yn gyfan gwbl heb lywio barn ynghylch a gafodd y Cod Ymddygiad ei dorri ai peidio, gofyn i'r aelod(au) dan sylw:
   3.1 Fynychu cwrs hyfforddiant neu gael hyfforddiant arall.
   3.2 Cymryd rhan mewn proses gymodi gyda'r person a gyflwynodd y gŵyn.
   3.3 Gweithredu mewn ffordd briodol arall, fel y nodwyd.
   3.4 Cyfeirio'r gŵyn er mwyn ymchwilio'n ffurfiol iddi, a phenodi swyddog ymchwilio.
4. Gwneud pob penderfyniad a chymryd pob cam angenrheidiol er mwyn cynnal unrhyw ymchwiliad yn briodol a phenderfynu'n briodol ynghylch unrhyw gŵyn, cwestiwn neu fater arall sy'n codi dan y Cod Ymddygiad yn unol â'r protocolau a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.

5. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y trefniant dirprwyo hwn yn cynnwys y pŵer i wario arian angenrheidiol nad yw'n fwy na £5,000 ar gomisiynu cyngor neu gymorth cyfreithiol allanol gydag unrhyw ymchwiliad.
6. Oni ddarperir yn benodol fel arall, penderfynu y gall unrhyw un o'r pwerau a ddirprwywyd i'r Swyddog Monitro dan y Cynllun Dirprwyo hwn gael ei arfer gan y Dirprwy Swyddog Monitro heb fod angen awdurdod pellach.

## C4 Dirprwyo pwerau i'r Swyddog Adran 151

1. Y Swyddog Adran 151 yw:

    1.1. Cynghorydd ariannol yr Awdurdod, yr aelodau a'r swyddogion.
    1.2. 'Swyddog ariannol cyfrifol' yr Awdurdod dan bob ddeddfwriaeth berthnasol; a'r
    1.3. Swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu'n briodol faterion ariannol yr Awdurdod fel y nodir yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Deddf Llywodraeth Leol 2003 a phob deddfwriaeth berthnasol arall, ac mae'n cyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol gan yr holl ddeddfwriaeth honno.
2. Bydd gan y Swyddog Adran 151 y pwerau canlynol a ddirprwywyd a'r cyfrifoldebau canlynol:
    2.1. Cyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a nodir yn y Rheoliadau Ariannol.
    2.2. Sicrhau gwaith effeithiol o ran rheoli trysorlys, sy'n cynnwys cymryd yr holl gamau gweithredu angenrheidiol yng nghyswllt pob dyled, trefniadau talu cyfrifon, benthyciadau (gan gynnwys gwarantau ac indemniadau), grantiau, blaensymiau, buddsoddiadau, trefniadau cyllido, a threfniadau bancio yn gyffredinol.
    2.3. Cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod asedau'n cael eu diogelu, drwy gynnal a gweinyddu yswiriant priodol a chymeradwyo ceisiadau i ohirio pridiannau cyfreithiol.
    2.4. Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yng nghyswllt aelodaeth yr Awdurdod o Gronfa Bensiwn Powys fel corff derbyniedig.
    2.5. Cyflwyno adroddiad dan Adran 114 os yw gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytbwys wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Prif Weithredwr.
    2.6. Cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod, pan gaiff y gyllideb ei hystyried, ynghylch cadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn.
    2.7. Ardystio Datganiad o Gyfrifon blynyddol yr Awdurdod.
    2.8. Gwneud trefniadau, yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) sydd mewn grym, ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol a systemau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer archwilio mewnol a rheoli trysorlys.
    2.9. Oni ddarperir yn benodol fel arall, penderfynu y gall unrhyw un o'r pwerau a ddirprwywyd i'r Swyddog Adran 151 dan y Cynllun Dirprwyo hwn gael ei arfer gan y Dirprwy Swyddog Adran 151 heb fod angen awdurdod pellach.

## C5 Y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd

1. Awdurdodir y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd i weithredu fel a ganlyn:

    1.1. Cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod yng nghyswllt hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad cyhoeddus i dir, gan gynnwys y swyddogaethau'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus sydd i'w cyflawni gan yr Awdurdod ar ran unrhyw Awdurdod Priffyrdd ac unrhyw Gytundeb dilynol rhwng y partïon, sy'n addasu neu'n dirymu ac yn ailddeddfu ei ddarpariaethau.
    1.2. Bydd yr awdurdod hwn a ddirprwyir yn cynnwys y pŵer i gyflawni'r canlynol ymhlith pethau eraill:
    1.3. Ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro fel y bo'n angenrheidiol, penderfynu ynghylch pob cais (ar wahân i'r rheini y mae'r Fforwm Mynediad Lleol a/neu'r Cyngor Cymuned yn eu gwrthwynebu) am orchmynion creu, dileu a dargyfeirio llwybr cyhoeddus a gyflwynir i'r Awdurdod dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro fel y bo'n angenrheidiol, penderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn Addasu Map Diffiniol yng nghyswllt cais diwrthwynebiad dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Y Pwyllgor Cynllunio fydd yn penderfynu ynghylch unrhyw gais a wrthwynebir.
    1.4. Ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro fel y bo'n angenrheidiol, cadarnhau gorchmynion diwrthwynebiad dan Ddeddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; cyflwyno gorchmynion a wrthwynebir dan Ddeddf 1981 neu Ddeddf 1990; ac yng nghyswllt gorchmynion a wrthwynebir dan Ddeddf 1980, naill ai penderfynu peidio â'u cadarnhau neu'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel gorchmynion a wrthwynebir.
    1.5. Gweithredu dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i ymdrin â niwsans, peryglon a rhwystrau i hawliau tramwy cyhoeddus.
    1.6. Cynnal a chadw a gwella hawliau tramwy cyhoeddus.
    1.7. Gweithredu fel y 'Swyddog Priodol' at ddiben ymateb i hysbysiadau a gyflwynir dan Adran 56 Deddf Priffyrdd 1980.
    1.8. Penderfynu ynghylch ceisiadau dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980 i godi gatiau, codi camfeydd neu gyflawni gwaith arall ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau er mwyn atal anifeiliaid rhag gallu mynd i mewn ac allan.
    1.9. Gwneud gorchmynion dros dro i reoli traffig dan Adran 14 ac Adran 15 Deddf Rheoli Traffig 1984.
    1.10. Ymrwymo i gytundebau ar gyfer llwybrau caniataol a chytundebau mynediad dan Adran 39 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a phwerau perthnasol eraill, sy'n cynnwys iawndal ar ffurf cyfandaliad a delir unwaith yn unig neu daliadau cydnabod sy'n werth hyd at £5,000, neu daliadau blynyddol neu daliadau eraill a fydd yn llai na £750 y flwyddyn ar gyfartaledd tra bydd y cytundeb yn para.
    1.11. Penderfynu ynghylch ceisiadau a gwneud cyfarwyddiadau i wahardd neu gyfyngu mynediad i dir dan Adran 24 ac Adran 25 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 am gyfnodau nad ydynt yn digwydd yn rheolaidd, lle mae'r cyfnod gwahardd cyfan a geisir, ac unrhyw gyfnodau eraill yn ystod yr un flwyddyn pan fo mynediad i'r tir wedi'i wahardd neu'i gyfyngu yn unol â cheisiadau dan Adran 24 ac Adran 25, yn llai na 6 mis.
    1.12. Gwneud cyfarwyddiadau dan Adran 26 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 am gyfnodau o hyd at 6 mis yn ystod unrhyw un flwyddyn.

1.13. Cyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod fel Awdurdod Perthnasol ac Awdurdod Mynediad dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, sy'n cynnwys awdurdod i benderfynu ynghylch gwaharddiadau a chyfyngiadau.
1.14. Cyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, sydd yn unrhyw un o gytundebau dirprwyo'r Awdurdod Priffyrdd, ac adolygu ac adnewyddu'r cytundebau hynny.
1.15. Ymgynghori ynghylch gwneud Gorchmynion Rheoli Traffig, ac awdurdodi gwneud Gorchmynion o'r fath, dan Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 72 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006).
1.16. Pennu taliadau parcio.
1.17. Awdurdodi creu, drwy gytundeb, lwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig dan Adran 25 Deddf Priffyrdd 1980.
1.18. Ymdrin ag ymgyngoriadau a chymeradwyaeth yn ymwneud â raliau ceir dan ddarpariaethau Rheoliadau Cerbydau Modur (Cystadlaethau a Threialon) 1969.
1.19. Atal mynediad i Ardaloedd Mynediad a ddynodwyd dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
1.20. Rhoi prydlesi a thrwyddedau dros dro ar gyfer defnydd ad hoc o feysydd parcio'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a chyfleustodau cysylltiedig.
1.21. Rhoi prydlesi a thrwyddedau sesiynol i ddefnyddio safleoedd ar gyfer cyfnodau o hyd at 7 diwrnod.
1.22. Rhoi cytundebau pori i ddefnyddio tir sy'n eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
1.23. Cytuno ar gyfraniad yr Awdurdod i Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol a Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Awdurdodau Unedol eraill.
1.24. Pennu prisiau a thaliadau ar gyfer nwyddau manwerthu, cyhoeddiadau a gwasanaethau manwerthu, arddangosfeydd a digwyddiadau, adnoddau addysg, gwasanaethau a digwyddiadau cysylltiedig, cynlluniau cyfrannu rhoddion a noddi ar gyfer ymwelwyr, taliadau mynediad a thaliadau am wasanaethau.
1.25. Pennu taliadau yng nghyswllt Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus, ac achosion brys a thros dro o gau hawliau tramwy.
1.26. Ymateb i geisiadau, ac ymdrin â cheisiadau, i ganiatáu mynediad preifat drwy feysydd parcio'r Awdurdod neu brynu ardaloedd bach o dir ym meysydd parcio'r Awdurdod neu wrth eu hymyl.
1.27. Llofnodi Cytundebau Rheoli Coetir a Chytundebau Coetir Brodorol Newydd.
1.28. Awdurdodi creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yng nghyswllt ceisiadau am orchmynion creu llwybr cyhoeddus a gorchmynion dargyfeirio llwybr cyhoeddus dan Adran 26 ac Adran 119 Deddf Priffyrdd 1980.
1.29. Awdurdodi dileu llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yng nghyswllt ceisiadau am orchmynion dileu llwybr cyhoeddus dan Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980.
1.30. Awdurdodi digwyddiadau hamdden a her ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
1.31. Awdurdodi caniatâd ar dir comin a thir mynediad dan is-ddeddfau'r Parc Cenedlaethol a gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedu gweithgareddau masnachol.
1.32. Awdurdodir y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Newid Hinsawdd ymhellach i benderfynu y gall y pwerau a ddirprwywyd gael eu harfer gan unrhyw un o swyddogion yr Awdurdod a awdurdodwyd yn ysgrifenedig ganddo/ganddi.

## ATODIAD A

## PANEL DEWIS Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

### Cyfansoddiad

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a dau aelod ychwanegol fel y pennir gan Gadeirydd yr Awdurdod. I'r graddau y mae hynny'n bosibl, dylai cyfansoddiad y panel fodloni gofynion Paragraff 13.3 Atodlen 7 Deddf yr Amgylchedd 1995 o ran cydbwysedd rhwng aelodau a benodir gan awdurdodau lleol ac aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Prif Swyddog perthnasol yn goruchwylio'r broses recriwtio ac yn rhoi cyngor i'r panel yn ôl yr angen ynghylch ceisiadau allanol am aelodaeth.

### Cylch Gorchwyl/Pwerau a Ddirprwywyd

Penodi unigolion i Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog am dymor penodol o dair blynedd, neu fel y nodir yn y rheoliadau, fel a ganlyn:

1) Cadarnhau disgrifiad o rôl aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Fforwm Mynediad Lleol;
2) Cymeradwyo trefniadau i'r swydd gael ei hysbysebu mewn modd sy'n debygol o'i dwyn i sylw unigolion sy'n gymwys i ymgeisio amdani;
3) Cymeradwyo trefniadau i wybodaeth berthnasol gael ei hanfon at unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais amdani;
4) Ystyried rhestr o ymgeiswyr addas;
5) Gwneud penderfyniad ynghylch dewis ymgeisydd yn derfynol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio;
6) Os nad oes neb cymwys wedi ymgeisio, cymeradwyo trefniadau pellach i hysbysebu.